Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ganolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru

**Ysgol Addysg**
**Prifysgol Bangor**
**Safle'r Normal**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 2PZ**

**Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes**
**Prifysgol Aberystwyth**
**Campws Penglais**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 3UX**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag adran 18c Deddf Addysg 1994 (yr ychwanegwyd ato gan baragraff 13 o Atodlen 14 Deddf Addysg 2005).


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 15/10/2015**

## Cyd-destun

Mae Canolfan Addysg a Hyfforddiant Athrawon Gogledd a Chanolbarth Cymru yn un o dair canolfan addysg a hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru a bu'n gweithredu er 2010. Mae'r Ganolfan yn cael ei rheoli ar y cyd gan Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor, ac mae'n cynnwys darpariaeth yn y ddau sefydliad ac yn hyfforddi athrawon cynradd ac uwchradd. Mae'r ganolfan yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion sydd wedi eu lleoli mewn ardal eang ledled Cymru. Mae Canolfan Gogledd a Chanolbarth Cymru yn cynnig y rhaglenni hyfforddiant athrawon canlynol:

- BA Addysg Gynradd gyda SAC
- TAR Cynradd
- TAR Uwchradd
- BSc Dylunio a Thechnoleg gyda SAC
- Rhaglen Hyfforddi Athrawon Graddedig

Mae'r rhaglen BA cynradd a'r BSc mewn Dylunio a Thechnoleg yn gyrsiau astudio tair blynedd. Mae'r ddwy raglen ôl-raddedig yn gyrsiau blwyddyn.

Mae'r rhaglen TAR Uwchradd yn cael ei darparu ar y cyd gan Brifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor. Mae Aberystwyth yn darparu hyfforddiant mewn Saesneg, drama, daearyddiaeth, hanes, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), ieithoedd modern, gweithgareddau awyr agored, gwyddoniaeth a Chymraeg. Mae Bangor yn darparu hyfforddiant mewn celf, mathemateg, cerddoriaeth, addysg gorfforol, addysg grefyddol, gwyddoniaeth a Chymraeg.

Mae'r BA mewn Addysg Gynradd, y BSc Uwchradd mewn Dylunio a Thechnoleg a'r ddarpariaeth TAR Cynradd yn cael eu cynnig ym Mhrifysgol Bangor.

Yn 2014-2015, mae 230 o hyfforddeion yn dilyn y rhaglen BA Cynradd (y mae 77 ohonynt yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg). Mae 171 o hyfforddeion yn ymgymryd â'r rhaglen TAR Cynradd (y mae 37 ohonynt yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg) ac mae 189 o hyfforddeion yn dilyn y rhaglen TAR Uwchradd (y mae 59 ohonynt wedi eu hymrestru'n hyfforddeion cyfrwng Cymraeg). Mae 18 o hyfforddeion ar y rhaglen BSc Dylunio a Thechnoleg (y mae 11 ohonynt yn dilyn y cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg).

Mae 17 o hyfforddeion wedi cofrestru ar y Rhaglen Athrawon Graddedig.

Mae'r holl gyrsiau'n destun gofynion dogfen wybodaeth 129/2013 Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y darparwr** | **Anfoddhaol** |
| **Rhagolygon gwella'r darparwr** | **Anfoddhaol** |

### Perfformiad presennol

Nodwyd y nodweddion cadarnhaol canlynol yn y lleoliad:

- Mae gan y rhan fwyaf o hyfforddeion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu
- Mae gan hyfforddeion ar y rhaglen BSc Dylunio a Thechnoleg wybodaeth a dealltwriaeth dda iawn
- Mae ystod yr ysgolion partner y mae'r ganolfan yn cydweithio â nhw yn darparu cyfleoedd hyfforddiant da i hyfforddeion addysgu mewn amgylchedd dwyieithog
- Mae'r ganolfan yn darparu cymorth gwerthfawr i alluogi hyfforddeion cyfrwng Cymraeg i wella eu medrau llythrennedd Cymraeg

Fodd bynnag, bernir bod perfformiad presennol yn anfoddhaol oherwydd:

- Nid yw lleiafrif sylweddol o hyfforddeion yn gwneud cynnydd digonol
- Nid yw lleiafrif sylweddol o hyfforddeion yn cynllunio eu haddysgu'n ddigon da
- Nid yw llawer o hyfforddeion yn datblygu medrau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol
- Nid yw llawer o hyfforddeion yn datblygu eu medrau dadansoddi beirniadol yn ddigon da
- Mewn tua hanner yr achosion, nid yw tiwtoriaid a mentoriaid yn barnu cynnydd hyfforddeion yn ddigon cywir, nac yn darparu cyngor digon da i alluogi hyfforddeion i wneud cynnydd da

### Rhagolygon gwella

Bernir bod rhagolygon gwella'n anfoddhaol oherwydd:

- Mae gwendidau sylweddol mewn prosesau arweinyddiaeth ar draws y ganolfan
- Nid yw cynllunio strategol yn canolbwyntio ar nodweddion hyfforddiant cychwynnol athrawon o ansawdd uchel
- Nid yw hunanarfarnu wedi ei seilio'n ddigon cadarn ar ddadansoddi data a thystiolaeth uniongyrchol yn drylwyr er mwyn nodi targedau penodol ar gyfer gwella
- Nid yw uwch arweinwyr y ganolfan yn cyfathrebu disgwyliadau digon uchel yn glir i'r holl staff a'r ysgolion partner
- Nid yw systemau sicrhau ansawdd ar draws y ganolfan ac ar draws ysgolion y bartneriaeth yn ddigon cryf i sicrhau cysondeb o ran arfer neu ddarpariaeth

## Argymhellion

A1 Cyfathrebu gweledigaeth a nodau strategol clir ar gyfer y ganolfan

A2 Cryfhau arweinyddiaeth er mwyn i arweinwyr ar bob lefel gael eu dwyn yn atebol am ddeilliannau hyfforddeion

A3 Gwella'r defnydd o ddata a thystiolaeth uniongyrchol i lywio hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella

A4 Gwella cywirdeb tiwtoriaid a mentoriaid o ran barnu safonau hyfforddeion a'u gallu i osod targedau sy'n helpu hyfforddeion i wneud cynnydd da

A5 Gwella medrau cynllunio hyfforddeion i ganolbwyntio'n gliriach ar ddeilliannau i ddisgyblion, fel bod hyfforddeion yn defnyddio gwybodaeth asesu i osod nodau dysgu clir, a nodi strategaethau addysgu a dysgu effeithiol

A6 Gwella gallu hyfforddeion i ddatblygu medrau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd, TGCh a Chymraeg

A7 Gwella medrau meddwl beirniadol hyfforddeion yn eu hastudiaethau yn y brifysgol a'u harfarniadau o ddysgu disgyblion

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y ganolfan yn llunio cynllun gweithredu yn dangos sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn ailarolygu'r ddarpariaeth ymhen tua blwyddyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Anfoddhaol |
|---|---|

**Safonau: Anfoddhaol**

Er bod llawer o hyfforddeion yn cyflawni'r safonau ar gyfer Statws Athro Cymwysedig (SAC), nid yw lleiafrif sylweddol o hyfforddeion yn gwneud cynnydd digon da o ran datblygu eu medrau addysgu a'u dealltwriaeth o bedagogeg effeithiol, yn enwedig y rhai ar y rhaglen ôl-raddedig uwchradd.

Mae gan y mwyafrif o hyfforddeion ddealltwriaeth dda o anghenion a galluoedd disgyblion yn eu dosbarthiadau. Maent yn ysgogi disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'r hyn y gallant ei gyflawni. Mae ychydig o hyfforddeion cynradd yn gwneud defnydd effeithiol iawn o oedolion eraill yn eu dosbarthiadau er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd da.

Mae gan y rhan fwyaf o hyfforddeion cynradd wybodaeth ymarferol dda am Ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol a gofynion meysydd llafur arholiadau Mae gan lawer o hyfforddeion uwchradd wybodaeth dda am y pwnc y maent yn hyfforddi i'w addysgu. Mae gan hyfforddeion ar y rhaglen BSc Dylunio a Thechnoleg wybodaeth bynciol ragorol. Maent yn cyfrannu'n gryf at ddatblygu dylunio a thechnoleg mewn ysgolion. Mae ychydig o hyfforddeion yn cynllunio'n dda iawn i fodloni anghenion disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Nid yw lleiafrif sylweddol o hyfforddeion yn cynllunio eu haddysgu'n ddigon da i sicrhau bod eu disgyblion yn gwneud cynnydd da. Nid ydynt yn nodi bwriadau dysgu digon penodol ar gyfer eu gwersi, nac yn ystyried y deilliannau y gallai disgyblion o alluoedd gwahanol eu cyflawni. Mae hyn yn golygu nad ydynt yn gallu cynllunio'r strategaethau mwyaf effeithiol i helpu disgyblion i ddysgu'n llwyddiannus. Hefyd, mae hyn yn amharu ar allu hyfforddeion i asesu gwaith disgyblion yn gywir ac arfarnu eu haddysgu eu hunain. Dim ond ychydig o hyfforddeion sy'n cynllunio'n dda i gynnwys y Cwricwlwm Cymreig yn eu haddysgu, ac ychydig iawn ohonynt sy'n cynnwys gwaith sy'n ystyried materion allweddol mewn Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Mae llawer o hyfforddeion yn defnyddio ystod eang o ddulliau addysgu. Maent yn llunio deunyddiau dysgu symbylol ac yn paratoi eu hadnoddau a'u hystafelloedd dosbarth yn dda. Mae llawer o hyfforddeion yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol. Ychydig iawn o hyfforddeion sy'n ymateb yn hyblyg i ddysgu disgyblion ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymestyn dealltwriaeth disgyblion. Maent yn gofyn cwestiynau treiddgar ac yn disgwyl i ddisgyblion ddatblygu eu meddwl. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o hyfforddeion yn cynllunio'n ddigon da i greu dysgu effeithiol. Maent yn defnyddio dull fformiwläig o gynllunio ac yn cymhwyso strategaethau addysgu â dealltwriaeth gyfyngedig. Nid yw'r hyfforddeion hyn yn defnyddio holi'n ddigon da i ymestyn dealltwriaeth disgyblion, ac nid ydynt yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu'n bwrpasol.

Mae gan lawer o hyfforddeion fedrau rhifedd a medrau llythrennedd addas mewn Cymraeg a Saesneg, ond mae ychydig o hyfforddeion yn gwneud camgymeriadau o ran gramadeg, cystrawen a sillafu. Mae llawer o hyfforddeion yn datblygu eu medrau llythrennedd personol yn briodol, ac mae'r hyfforddeion hynny sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Cymorth Cymraeg yn datblygu eu medrau iaith yn dda. Mae cynnydd hyfforddeion mewn datblygu eu medrau rhifedd personol yn rhy amrywiol.

Mae gan y rhan fwyaf o hyfforddeion cynradd ddealltwriaeth gadarn o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, ac mae llawer ohonynt yn cynllunio cyfleoedd priodol i'w disgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn yr ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, mae defnydd hyfforddeion o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar y rhaglen ôl-raddedig uwchradd yn eu haddysgu yn fwy amrywiol, ac nid yw llawer o hyfforddeion yn ymelwa'n llawn ar gyfleoedd i gynorthwyo i ddatblygu medrau disgyblion.

Mae gan lawer o hyfforddeion fedrau TGCh cadarn ac maent yn eu defnyddio'n effeithiol i gyflwyno syniadau yn yr ystafell ddosbarth ac i lunio adnoddau i ddisgyblion. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif o hyfforddeion sy'n defnyddio eu medrau TGCh yn dda i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o TGCh.

Yn eu haseiniadau yn y brifysgol, gwna'r rhan fwyaf o hyfforddeion gysylltiadau defnyddiol rhwng theori ac arfer addysgol, ond nid ydynt yn dadansoddi testunau addysgol yn ddigon da nac yn gwneud cysylltiadau digon agos rhwng llenyddiaeth ymchwil a dysgu disgyblion. Yn eu hyfforddiant yn yr ysgol, nid yw'r mwyafrif o hyfforddeion yn myfyrio'n ddigon dadansoddol ar eu haddysgu. Nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar effeithiolrwydd strategaethau addysgu ac asesu o ran y cynnydd a wneir gan ddisgyblion.

Mewn llawer o sesiynau yn y brifysgol, mae hyfforddeion yn creu syniadau da ar gyfer strategaethau addysgu ac asesu i ddisgyblion o bob gallu. Fodd bynnag, nid yw llawer o hyfforddeion yn datblygu eu medrau beirniadol yn ddigonol, ac nid ydynt yn myfyrio'n ddigon da ar theori addysgol a'i chymhwyso yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion sy'n hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn fodel iaith da i'w disgyblion. Fodd bynnag, nid yw llawer o hyfforddeion cyfrwng Saesneg yn defnyddio'r Gymraeg ddigon yn yr ystafell ddosbarth i hyrwyddo defnydd y Gymraeg a medrau Cymraeg disgyblion a'u datblygu, nac i gynorthwyo'r Cwricwlwm Cymreig.

Yn 2011-2012 ar y rhaglen israddedig gynradd, roedd y cymwysterau yr oedd hyfforddeion yn meddu arnynt wrth ddechrau'r rhaglen yn is na'r cyfartaledd ar gyfer hyfforddeion ledled Cymru. Roedd cymwysterau hyfforddeion ar y rhaglen Dylunio a Thechnoleg israddedig wrth ddechrau'r rhaglen ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru ar gyfer rhaglenni israddedig uwchradd. Yn 2011-2012, roedd gan 53% o'r hyfforddeion a ddechreuodd y rhaglen gynradd ôl-raddedig radd dda (gradd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch). Roedd hyn yn is na'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 59%. Roedd gan 56% o'r hyfforddeion ar y rhaglen uwchradd ôl-raddedig radd dda wrth ddechrau'r rhaglen, sydd islaw'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 59%.

Cyfran yr hyfforddeion cynradd israddedig a enillodd statws athro cymwysedig yn 2011-2012 oedd 98%. Mae hyn yn gyfwerth â'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru. Cyfran yr hyfforddeion cynradd ôl-raddedig a enillodd SAC oedd 88%, sydd islaw'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 91%. Cyfran yr hyfforddeion uwchradd israddedig a enillodd statws athro cymwysedig yn 2011-2012 oedd 100%. Mae hyn gyfwerth â'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 100%. Cyfran yr hyfforddeion uwchradd ôl-raddedig a enillodd SAC yn 2011-2012 oedd 84%. Mae hyn islaw'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 87%.

Mae'r ystadegau diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod ychydig iawn o'r hyfforddeion cynradd israddedig a ymatebodd i'r Arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch (DLHE) wedi ennill swyddi addysgu yng Nghymru yn 2011-2012. Y ffigur cyffredinol ar gyfer y rhai yng Nghymru a ymatebodd i'r arolwg DLHE yw 59%. Cyfran yr hyfforddeion cynradd ôl-raddedig a ymatebodd i'r arolwg DLHE a enillodd swyddi addysgu yng Nghymru yn 2011-2012 oedd 62%, sydd islaw'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 70%. Ychydig iawn o'r hyfforddeion uwchradd israddedig a ymatebodd i'r arolwg DLHE a enillodd swyddi addysgu yng Nghymru, ac mae'r gyfran hon o hyfforddeion yn sylweddol is na'r ffigur cyffredinol ar gyfer Cymru, sef 19%. Cyfran yr hyfforddeion uwchradd ôl-raddedig a ymatebodd i'r arolwg DLHE a enillodd swyddi addysgu yng Nghymru yn 2011-2012 oedd 3%. Mae hyn yn sylweddol is na'r ffigur ar gyfer Cymru, sef 41%.

## Lles: Digonol

Mae gan y rhan fwyaf o hyfforddeion agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Maent yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau proffesiynol ac maent wedi eu cymell yn dda i ddatblygu eu medrau a'u dealltwriaeth. Maent yn ymateb yn dda i'r angen i olrhain eu cynnydd eu hunain yn erbyn y safonau ar gyfer SAC ac maent yn rhoi sylw da i gyngor ac arweiniad gan diwtoriaid a mentoriaid. Mae llawer o'r hyfforddeion yn diweddaru eu ffeiliau'n ddiwyd. Maent yn teimlo eu bod yn cael cymorth da gan eu tiwtoriaid a'u mentoriaid. Fodd bynnag, nid yw ychydig o'r hyfforddeion yn gallu rheoli eu llwyth gwaith yn llwyddiannus, yn enwedig yn ystod yr hyfforddiant yn yr ysgol. Nid yw ychydig o'r hyfforddeion yn ymwybodol o'r cysylltiadau y mae angen iddynt eu gwneud rhwng aseiniadau'r brifysgol a'u profiad ysgol. Fodd bynnag, mae bron pob un o'r hyfforddeion yn cydnabod mantais ymgymryd ag ymchwil yn yr ysgol yn eu haseiniadau prifysgol terfynol.

Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion yn gwybod sut i gadw'n ddiogel yn amgylchedd yr ysgol ac mae gan bron pob un ohonynt ddealltwriaeth gadarn o weithdrefnau amddiffyn plant. Maent yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau yn yr ysgol a'r brifysgol.

Mae llawer o hyfforddeion yn cyfrannu'n dda at weithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol, fel clybiau amser cinio a chynyrchiadau'r ysgol, yn enwedig mewn addysg gorfforol a drama.

Mae bron pob un o'r hyfforddeion yn cadw cofnodion cywir o'u presenoldeb ar eu hyfforddiant yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae presenoldeb hyfforddeion yn y brifysgol yn foddhaol. Fodd bynnag, mae presenoldeb hyfforddeion mewn ychydig o'r sesiynau yn y brifysgol yn llai cyson, yn enwedig sesiynau ail bwnc ac astudiaethau proffesiynol ar y rhaglen uwchradd ôl-raddedig. Nid yw ychydig o'r hyfforddeion yn cyrraedd sesiynau yn y brifysgol yn brydlon.

Mae’r rhan fwyaf o’r hyfforddeion yn ymateb yn rheolaidd i arfarniadau rhaglenni. Mae hyfforddeion etholedig sy’n cynrychioli eu cyfoedion ar bwyllgorau’r brifysgol yn deall eu cyfrifoldebau’n dda ac yn cyfrannu at bwyllgor y rhaglen gyfan. Fodd bynnag, nid yw rhai hyfforddeion yn sicr p’un a yw’r ganolfan yn gweithredu ar eu barn ai peidio.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae’r ganolfan yn darparu cyfleoedd addas i hyfforddeion ddatblygu dealltwriaeth gadarn o’r safonau ar gyfer statws athro cymwysedig. Mae hyfforddeion yn cael cymorth priodol i fanteisio ar adnoddau sy’n eu helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth, gwybodaeth a’u medrau pedagogeg. Mae’r hyfforddeion yn cael eu hannog yn rheolaidd gan diwtoriaid i rannu gwybodaeth yn electronig, i ddefnyddio’r rhith-amgylchedd dysgu, ac i gael gwybodaeth o ymchwil addysgol arbenigol, cymdeithasau a sefydliadau.

Mae hyfforddiant yn yr ysgol yn cysylltu’n briodol â darpariaeth yn y ganolfan. Mae’r rhaglen yn darparu cydbwysedd priodol o theori a dulliau ymarferol i hyfforddeion mewn agweddau allweddol ar addysgu a dysgu. Fodd bynnag, nid yw cynllun y profiad ysgol terfynol i hyfforddeion israddedig cynradd yn caniatáu digon o amser i’r hyfforddeion hyn atgyfnerthu eu medrau addysgu.

Mae’r ganolfan yn cydweithio’n agos â’r hyfforddeion i sicrhau y cânt eu lleoli mewn ysgolion addas ar gyfer pob profiad ysgol. Mae maint a lleoliad yr ysgolion yn cael eu hystyried yn ofalus, ynghyd â’u gwahaniaethau ieithyddol, cymdeithasol ac economaidd. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un o’r hyfforddeion yn cael ystod eang o heriau a phrofiadau trwy gydol y rhaglen. Mae’r ganolfan wedi meithrin cysylltiadau ag ystod o ysgolion partner, sy’n darparu cyfleoedd hyfforddiant buddiol i hyfforddeion addysgu mewn amgylchedd dwyieithog.

Mae gan bob rhaglen ffocws clir ar y gofyniad statudol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Mae’r ganolfan yn darparu cyfleoedd cynhwysfawr i hyrwyddo dealltwriaeth hyfforddeion o ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar draws rhaglenni cynradd. Fodd bynnag, ar draws y rhaglen uwchradd ôl-raddedig, at ei gilydd, nid yw hyfforddeion yn cael arweiniad digon penodol ar sut i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn dda.

Mae’r ganolfan yn defnyddio gweithdrefnau sefydledig i asesu safonau llythrennedd a rhifedd pob ymgeisydd cyn eu derbyn ar y cwrs. Trwy gydol y rhaglenni, mae staff yn olrhain y medrau hyn yn briodol a chaiff cymorth unigol, ar sail archwiliad o angen, ei roi i hyfforddeion. Fodd bynnag, mae trefniadau’r ganolfan i ddatblygu medrau llythrennedd hyfforddeion yn Saesneg yn anghyson ar draws y rhaglenni, ac nid ydynt yn bodloni anghenion pob hyfforddai, yn enwedig y rhai sy’n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae’r ganolfan yn darparu cymorth gwerthfawr i alluogi myfyrwyr cyfrwng Cymraeg i wella eu medrau llythrennedd Cymraeg.

Mae'r rhai sy'n dysgu'r Gymraeg a'r rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg, yn mynychu cwrs iaith dwys ar ddechrau eu rhaglen, sy'n darparu Cymraeg gyfarwyddol sylfaenol iddynt. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnal ar hyd y rhaglenni. O ganlyniad, nid yw hyfforddeion sy'n astudio trwy gyfrwng Saesneg yn gallu manteisio'n ddigonol ar sesiynau rheolaidd, wedi eu personoli, i wella eu medrau Cymraeg. Mae hyn yn cyfyngu ar allu llawer o'r hyfforddeion hyn i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus er mwyn datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn effeithiol.

Mae darpariaeth a chynllunio i ddatblygu dealltwriaeth hyfforddeion o'r dimensiwn Cymreig yn briodol. Mae bron pob un o'r hyfforddeion yn ennill dealltwriaeth eang o ofynion y Cwricwlwm Cymreig trwy ystod eang o weithgareddau perthnasol yn y ganolfan.

Mae'r ganolfan yn darparu cyfleoedd priodol i hyfforddeion ddatblygu eu dealltwriaeth o sut i ddefnyddio TGCh yn yr ystafell ddosbarth. Mae hyfforddeion yn cael cymorth priodol i ddatblygu eu medrau TGCh personol. Fodd bynnag, nid yw gweithdrefnau'r ganolfan ar gyfer olrhain a mesur cynnydd hyfforddeion mewn TGCh yn ddigon trylwyr i sicrhau bod cynllunio wedi ei seilio ar anghenion a chymhwysedd unigol.

Mae'r ganolfan yn darparu arweiniad addas i hyfforddeion ar sut i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

**Addysgu: Anfoddhaol**

Mewn llawer o'r sesiynau hyfforddiant yn y brifysgol ac mewn ysgolion, mae tiwtoriaid a mentoriaid yn cynnwys hyfforddeion mewn gweithgareddau hyfforddiant defnyddiol sy'n cyfrannu'n dda at eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth broffesiynol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r asesiad o safonau hyfforddeion a'r adborth sy'n cael ei roi i hyfforddeion yn ddigon effeithiol i alluogi hyfforddeion i wneud cynnydd da.

Yn yr hyfforddiant yn y brifysgol, dim ond ychydig o diwtoriaid ar draws pob rhaglen sy'n dangos addysgu o ansawdd uchel i ysbrydoli dysgwyr. Yn y sesiynau hyn, mae hyfforddeion yn cael eu herio i fyfyrio ar ddamcaniaethau, beirniadu gwaith pobl eraill a meddwl am sut y gallant wella eu harfer eu hunain. Mae gan y tiwtoriaid hyn ddealltwriaeth dda iawn o sut mae hyfforddeion yn dysgu sut i addysgu.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn defnyddio ystod briodol o adnoddau i ennyn diddordeb hyfforddeion ac i enghreifftio pwyntiau addysgu yn dda. Mae llawer o'r sesiynau wedi eu strwythuro'n dda ac yn cynnwys cymysgedd defnyddiol o weithgarwch hyfforddeion a mewnbwn gan y tiwtor.

Mae llawer o diwtoriaid yn ddelfryd ymddwyn briodol o ran datblygu medrau Cymraeg a Saesneg hyfforddeion. Ar y rhaglen uwchradd ôl-raddedig, gwna ychydig o diwtoriaid ddefnydd da o hyfforddeion cyfrwng Cymraeg i gynorthwyo hyfforddeion cyfrwng Saesneg i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw ychydig o diwtoriaid, wrth addysgu hyfforddeion sy'n astudio trwy gyfrwng y Saesneg, yn modelu arfer dda mewn defnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth yn ystod gweithgareddau yn y brifysgol.

Yn y brifysgol, mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn cynllunio sesiynau'n glir gan gyfeirio at ddatblygiadau cyfredol yng Nghymru a'r tu hwnt. Mewn mwyafrif o sesiynau, mae tiwtoriaid yn datblygu dealltwriaeth hyfforddeion o sut i roi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar waith yn dda. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau ar y rhaglen uwchradd ôl-raddedig, nid yw tiwtoriaid yn rhoi sylw digonol i'r ffyrdd y gallai'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd gael ei gymhwyso wrth addysgu pynciau.

Mewn lleiafrif o sesiynau, nid yw tiwtoriaid yn cynllunio'n ddigon da i wella medrau beirniadol hyfforddeion, nac yn rhoi digon o gyfle i hyfforddeion ddatblygu eu gallu i fyfyrio ar eu harfer ac ar ymchwil addysgol.

Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw tiwtoriaid yn cyfleu gwybodaeth bynciol gywir wrth addysgu. O ganlyniad, mae gan hyfforddeion yn y sesiynau hyn gamsyniadau a gwybodaeth anghywir. Mewn ychydig o sesiynau yn y brifysgol, nid yw tiwtoriaid yn nodi gwallau sylfaenol a wneir gan hyfforddeion mewn gwybodaeth bynciol. Mewn ychydig o achosion, mae tiwtoriaid yn canmol ymatebion hyfforddeion yn rhy uchel ac nid ydynt yn rhoi adborth sy'n ddigon beirniadol i helpu hyfforddeion i wella.

Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi adborth manwl ar aseiniadau ysgrifenedig hyfforddeion. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw sylwadau tiwtoriaid ar aseiniadau hyfforddeion yn cyfateb i'r graddau a ddyfarnwyd neu'r targedau a osodwyd ar gyfer gwella. Mewn ychydig o achosion, mae'r targedau sy'n cael eu gosod ar gyfer hyfforddeion yn rhy gyffredinol i fod yn ddefnyddiol.

Mewn lleiafrif o achosion, nid yw tiwtoriaid yn nodi gwallau sillafu a gramadeg hyfforddeion yn ddigon da. Mae hyn yn arbennig o wir yng ngwaith hyfforddeion cyfrwng Saesneg.

Yn yr hyfforddiant mewn ysgolion, mae mentoriaid a thiwtoriaid yn rhoi cymorth personol da i hyfforddeion. Maent yn ymateb yn sensitif pan fydd hyfforddeion yn cael anawsterau. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid yn rhoi cyfleoedd priodol i hyfforddeion fyfyrio ar eu cynnydd, ac yn gwirio cynnydd hyfforddeion yn erbyn y safonau ar gyfer SAC yn gydwybodol. Fodd bynnag, mewn tua hanner yr achosion, mae tiwtoriaid a mentoriaid yn barnu cynnydd hyfforddeion yn anghywir.

Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn darparu syniadau defnyddiol ar gyfer sut gallai hyfforddeion fynd i'r afael â diffygion yn eu haddysgu; fodd bynnag, nid yw llawer o fentoriaid yn canolbwyntio'n ddigon da ar gynnydd disgyblion mewn gwersi i fesur addysgu effeithiol. Mewn ychydig o bynciau uwchradd, nid yw tiwtoriaid a mentoriaid yn archwilio agweddau penodol ar bedagogeg pwnc gyda hyfforddeion. Nid yw llawer o fentoriaid a thiwtoriaid yn nodi diffygion yng nghynllunio ac arfarniadau hyfforddeion yn ddigon clir, ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar gynnydd hyfforddeion. Mae pob tiwtor a mentor yn gosod targedau i hyfforddeion, ac mae llawer ohonynt yn ystyried yn rheolaidd pa mor dda y mae hyfforddeion yn gweithio tuag at y targedau hyn. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, mae gwrthddywediadau yn adborth ysgrifenedig tiwtoriaid a mentoriaid i hyfforddeion, ac nid yw'r mwyafrif o fentoriaid ac ychydig o'r tiwtoriaid yn gosod targedau digon penodol, neu nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar y meysydd pwysicaf y mae angen i hyfforddeion eu gwella.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r ganolfan yn defnyddio rhaglenni ymsefydlu yn briodol i roi gwybod i hyfforddeion am ystod y wybodaeth sydd ar gael iddynt. Yn gyffredinol, mae tiwtoriaid personol a thiwtoriaid cyrsiau yn adnabod eu hyfforddeion unigol yn dda, ac mae'r cymorth cadarnhaol hwn i fyfyrwyr yn eu galluogi i adnabod y rhai sy'n cael trafferth. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tiwtoriaid yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i dargedu cymorth i anghenion unigol yr hyfforddai. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion yn gwybod ble i fynd os oes angen help arnynt â materion fel iechyd a lles. Yn gyffredinol, mae'r wybodaeth sy'n cael ei chynnig yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth hyfforddeion o bwysigrwydd cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd. Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth y rhaglen na strategaethau i hyfforddeion ar sut i ymdopi â straen ymddangosiadol yn gysylltiedig â'r hyfforddiant yr un mor effeithiol.

Nid yw'r ddwy brifysgol bartner yn cysylltu â'i gilydd yn ddigon systematig mewn perthynas â darpariaeth y ganolfan ar gyfer lles. Er enghraifft, nid oes unrhyw gyfarfodydd rheolaidd ar waith i rannu arfer dda a thrafod materion sy'n dod i'r amlwg. Nid oes cyfarfodydd rheolaidd rhwng y ddau bartner chwaith i drafod pa mor effeithiol y mae'r cymorth sy'n cael ei ddarparu yn cael effaith ar y safonau y mae hyfforddeion yn eu cyflawni.

Mae'r ganolfan yn sicrhau bod bron pob un o'r hyfforddeion yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddu yn y ganolfan ac yn eu lleoliadau ysgol. Mae trefniadau diogelu'r ganolfan yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r weithdrefn recriwtio yn darparu cyfleoedd addas i hyfforddeion nodi eu hanghenion dysgu ychwanegol. Gall pawb sy'n cysylltu â'r gwasanaethau cymorth myfyrwyr canolog fanteisio ar gynllun cymorth dysgu personol priodol, sy'n cael ei adolygu bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw'r ganolfan yn olrhain cynnydd hyfforddeion unigol ag anghenion ychwanegol yn ddigon da, ac nid yw arweinwyr yn dadansoddi effeithiolrwydd gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr.

Mae prosesau cadarn ar waith i sicrhau bod hyfforddeion yn mynychu eu hyfforddiant yn yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r ganolfan yn hyrwyddo presenoldeb rheolaidd yn ddigon da yn ystod y rhannau o'r rhaglen yn y brifysgol. O ganlyniad, mewn ychydig o sesiynau yn y brifysgol, nid yw lefelau presenoldeb a phrydlondeb yn ddigon da.

Mae rhaglenni'n darparu gwybodaeth ac arweiniad defnyddiol ar wneud cais am swyddi addysgu a pharatoi ar gyfer cyfweliadau.

## Yr amgylchedd dysgu: Digonol

Mae cyflwr ac addasrwydd yr adeiladau ar gyfer hyfforddiant, dysgu a chymorth i hyfforddeion yn dda iawn. Yn gyffredinol, gall hyfforddeion fanteisio ar adnoddau dysgu addas yn y ddwy brifysgol a'r ysgolion partner. Mae hyfforddeion yn gwerthfawrogi'r ystafelloedd addysgu pwrpasol ar gyfer pynciau penodol yn y ddwy brifysgol a'r ystod eang o adnoddau symbylol sy'n cael eu darparu gan y ganolfan. Mae'r gweithdai dylunio a thechnoleg i hyfforddeion israddedig ym Mangor yn enghraifft o ddarpariaeth o ansawdd uchel ac yn galluogi hyfforddeion i ddatblygu eu medrau hyd at safon uchel iawn gan ddefnyddio offer arbenigol.

Gall pob hyfforddai fanteisio ar offer TGCh priodol. Fodd bynnag, mewn ychydig o bynciau uwchradd, nid yw hyfforddeion yn cael digon o gyfleoedd i ddatblygu addysgu a dysgu gan ddefnyddio technolegau symudol. O ganlyniad, nid yw'r hyfforddeion hyn yn cael eu paratoi cystal â hyfforddeion mewn meysydd eraill o ran defnyddio cymwysiadau perthnasol, na'r pedagogeg y tu ôl i ddefnyddio technoleg symudol yn yr ystafell ddosbarth.

Gall yr holl hyfforddeion fanteisio ar rith-amgylchedd dysgu dwyieithog y ganolfan 24 awr y dydd. Yma, gallant fanteisio ar ystod eang o adnoddau addas a chyfathrebu â'u tiwtoriaid a'u mentoriaid. Mae trefniadau llyfrgell defnyddiol iawn ar draws prifysgolion y tu hwnt i'r bartneriaeth, sy'n galluogi hyfforddeion i fanteisio ar lyfrgelloedd sy'n agos at eu lleoliad ysgol.

Mae polisïau addas ar waith i gynorthwyo cydraddoldeb ac amrywiaeth. Yn gyffredinol, mae'r amgylchedd dysgu yn galluogi pob un o'r hyfforddeion i fanteisio'n gyfartal ar y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i allu dangos y safonau statws athro cymwysedig a chwblhau eu cyrsiau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, mae'r ganolfan yn cynnig profiadau dysgu gwahanol yn y ddwy brifysgol bartner, gan arwain at gyfle anghyfartal i hyfforddeion. Er enghraifft, nid yw'r holl hyfforddeion sy'n hyfforddi ym Mangor yn cael cyfle i hyfforddi mewn ail bwnc.

Mae gan y ddwy brifysgol bartner bolisïau a chynlluniau priodol i alluogi hyfforddeion ag ystod o brofiadau blaenorol gwahanol i fanteisio ar raglenni. Fodd bynnag, nid yw'r ganolfan yn rhoi digon o sylw i recriwtio hyfforddeion o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Nid yw ei strategaeth farchnata yn ddigon rhagweithiol o ran targedu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, grwpiau ag anableddau neu gymunedau lleiafrifoedd ethnig.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Anfoddhaol** |

**Arweinyddiaeth: Anfoddhaol**

Mae uwch arweinwyr y prifysgolion ac arweinwyr y ganolfan yn y prifysgolion unigol sy'n ffurfio'r ganolfan wedi cydweithio â'i gilydd yn dda i fodloni'r gofyniad cenedlaethol i ail-ffurfweddu hyfforddiant cychwynnol athrawon yng Nghymru. Mae'r ganolfan yn darparu ystod briodol o gyrsiau cynradd ac uwchradd i fodloni anghenion ysgolion yng Nghymru, gan gynnwys cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae wedi lleihau dyblygu rhaglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon yn llwyddiannus. Yn benodol, mae'r prifysgolion unigol wedi cydweithio â'i gilydd yn dda i lunio TAR uwchradd, sy'n cael ei dilysu a'i dyfarnu ar y cyd. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r hyfforddeion ym Mhrifysgol Bangor yn cael y dewis i ddilyn ail bwnc. Canlyniad hynny yw bod hyfforddeion nad ydynt yn cael cyfle i ddilyn ail bwnc dan anfantais o bosibl wrth iddynt chwilio am waith.

Mae gan y ganolfan strategaeth dwy flynedd (2013-2015) ar waith. Mae'r ddogfen yn amlinellu cynllun clir ar gyfer y ganolfan o ran ei dyheadau i ddarparu hyfforddiant athrawon o ansawdd uchel a chyfrannu at ymchwil addysgol. Fodd bynnag, nid yw'n mynegi'n ddigon clir nodweddion hyfforddiant cychwynnol athrawon o ansawdd uchel. O ganlyniad, nid yw staff ar draws y ganolfan a'i hysgolion partner yn rhannu

gweledigaeth o ddyheadau'r ganolfan yn ymwneud ag ansawdd yr athrawon y mae'r ganolfan yn eu darparu i'r gweithlu addysgu yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae'r cynllun strategol yn manylu ar ddangosyddion perfformiad allweddol yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, yn aml, mae'r rhain yn cael eu mynegi mewn geiriau rhy gyffredinol i uwch arweinwyr y prifysgolion ac uwch arweinwyr y ganolfan eu monitro'n effeithiol. Mae hyn yn golygu nad yw'r ganolfan yn gallu mesur cynnydd yn erbyn ei thargedau yn ddigon da.

Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr y ganolfan swydd ddisgrifiadau priodol. Fodd bynnag, mewn ychydig iawn o achosion, nid oes unrhyw swydd ddisgrifiadau, ac mae hyn yn golygu nad yw'n glir ym mha ffordd y mae'r holl arweinwyr ar draws y ganolfan yn cyfeirio, monitro, darparu her ac yn dwyn eraill i gyfrif.

Mae gan bron pob un o'r rheolwyr canol ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau o ran y rhaglenni y maent yn gweithio arnynt. Fodd bynnag, nid yw uwch arweinwyr y ganolfan yn cyfathrebu disgwyliadau digon uchel i'r holl staff ac ysgolion partner yn glir, ac nid ydynt yn gosod targedau digon heriol. Er bod strwythurau rheoli a chyfathrebu priodol ar waith ar lefel strategol a gweithredol, nid yw uwch arweinwyr y ganolfan yn defnyddio'r systemau hyn nac yn monitro'r data yn ddigon effeithiol i sicrhau bod materion allweddol yn cael eu holrhain yn drylwyr. Er enghraifft, nid yw agendâu cyfarfodydd wedi eu cysylltu'n ddigonol i sicrhau bod lefelau byrddau gwahanol yn olrhain materion mewn modd cydlynol. Yn gyffredinol, mae cofnodion cyfarfodydd yn rhy ddisgrifiadol ac nid ydynt yn nodi'n glir y camau gweithredu i'w cymryd, erbyn pryd a chan bwy. O ganlyniad, ni all uwch arweinwyr ac arweinwyr canol y ganolfan fonitro materion allweddol yn gyson nac yn ddigon cyflym oddi mewn i raglenni ac ar eu traws i lunio casgliadau gwybodus am ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau hyfforddeion, na rhoi camau gweithredu effeithiol ar waith. Er enghraifft, mae diffyg pwynt adolygu interim ffurfiol i fonitro cynnydd hyfforddeion yn cyfrannu at ormod o hyfforddeion yn disgyn i'r categori 'yn peri pryder' yn rhy hwyr yn y rhaglen hyfforddiant. Mae hyn yn cyfyngu ar y graddau y gall tiwtoriaid ddarparu ymyriadau effeithiol ac amserol. Yn ei dro, mae'n arwain at ormod o hyfforddeion yn gohirio neu'n methu'r rhaglen hyfforddiant.

Mae Bwrdd Cynllunio Strategol Aberystwyth Bangor, sy'n cynnwys uwch arweinwyr y prifysgolion, yn cydweithio'n effeithiol â'r ganolfan ar lefel strategol i gytuno ar fentrau, fel ysgrifennu TAR ar y cyd a chynrychioli barn y prifysgolion ar faterion yn ymwneud â hyfforddiant cychwynnol athrawon i gyrff allanol. Mae cyfarwyddwr y ganolfan yn adrodd ar gynnydd yn rheolaidd i Grŵp Cynghrair Strategol Prifysgol Aberystwyth a Phrifysgol Bangor, Deon y Coleg a Phennaeth yr Ysgol Addysg. Fodd bynnag, nid yw rôl Grŵp y Gynghrair ac uwch arweinwyr y prifysgolion o ran bod yn gyfeillion beirniadol i'r ganolfan wedi ei datblygu'n ddigonol. O ganlyniad, nid yw'r prifysgolion yn herio'r ganolfan yn ddigon trylwyr nac yn craffu arni'n ddigonol.

**Gwella ansawdd: Anfoddhaol**

Er bod ysgolion y prifysgolion unigol yn defnyddio systemau hunanarfarnu mewnol sefydledig y brifysgol, nid yw'r ganolfan wedi alinio ei gweithdrefnau ar gyfer casglu neu arfarnu tystiolaeth uniongyrchol o ansawdd y cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon ar draws safleoedd Bangor ac Aberystwyth. Er bod uwch arweinwyr y ganolfan yn datblygu eu strategaeth i arfarnu darpariaeth ar draws y ganolfan, nid

ydynt wedi sefydlu cylch effeithiol o hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella, hyd yn hyn. Mae hyn yn golygu na all y ganolfan nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu yn ddigon penodol mewn modd amserol ac, o ganlyniad, nid yw'n gallu cynllunio ar gyfer gwella yn llwyddiannus.

Mae'r ddwy brifysgol bartner yn casglu ystod briodol o ddata am gynnydd hyfforddeion ac yn ceisio barn hyfforddeion, tiwtoriaid a mentoriaid gan eu hysgolion partner, penaethiaid ac athrawon newydd gymhwyso yn rheolaidd. Mae cyfarwyddwyr y cyrsiau yn ymateb i'r wybodaeth hon yn briodol, ac yn addasu eu darpariaeth yn unol â'r materion sy'n cael eu codi. Mae adroddiad hunanarfarnu'r ganolfan gyfan yn nodi'n gywir nifer o gryfderau a meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw'n arfarnu ystod gyflawn y data y mae'n ei gasglu yn ddigon manwl i lywio ei chynlluniau strategol. Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am lefelau cyrhaeddiad gwahanol ymhlith gwrywod a benywod, a hyfforddeion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, ond nid yw'n cynllunio i fynd i'r afael â'r materion hyn yn ei gynlluniau ar gyfer gwella. Yn ogystal, nid yw'n nodi diffygion yn ansawdd hyfforddiant nac ansawdd asesu ac adborth tiwtoriaid. Mae hyn yn golygu nad yw hunanarfarniad y ganolfan yn ddigon cadarn i nodi targedau clir ar gyfer gwella.

Mae'r ddwy brifysgol bartner yn arfarnu ansawdd addysgu mewn sesiynau yn y brifysgol, er bod y meini prawf ar gyfer arfarnu'r sesiynau hyn yn wahanol yn Aberystwyth a Bangor. Mae arfarniadau o sesiynau ym Mangor yn canolbwyntio'n dda ar gynnydd hyfforddeion yn ystod y sesiynau hyn ac yn arfarnu ansawdd yr addysgu yn unol â meini prawf sefydledig. Fodd bynnag, nid yw arfarniadau o sesiynau yn Aberystwyth yn canolbwyntio digon ar gynnydd a wneir gan hyfforddeion ac, mewn llawer o achosion, nid yw barnau'n alinio â'r meini prawf. Mae'r diffygion hyn yn golygu nad oes gan y ganolfan drosolwg cywir o ansawdd hyfforddiant yn ystod sesiynau yn y brifysgol.

Mae cyfarwyddwyr y cyrsiau ym Mangor ac Aberystwyth wedi rhannu ychydig o agweddau ar arfer dda yn effeithiol ymhlith cydweithwyr, er enghraifft mewn defnyddio llechi cyfrifiadurol. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu'n ddigon systematig ar draws y ganolfan i wella addysgu a dysgu.

Mae mentoriaid a thiwtoriaid yn arfarnu ansawdd addysgu hyfforddeion ar y cyd, sy'n cyfrannu at gyd-ddealltwriaeth well o'r safonau gofynnol. Mae'r ganolfan yn cynnal cyfarfodydd addas â mentoriaid i geisio eu barn ac i ddatblygu eu dealltwriaeth o ofynion y cwrs. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r mentoriaid yn mynychu hyfforddiant sy'n cael ei ddarparu gan y brifysgol yn ddigon rheolaidd. O ganlyniad, nid oes ganddynt wybodaeth gyfredol am y cwrs ac nid yw eu barn am ansawdd hyfforddeion yn cyd-fynd â meini prawf y ganolfan bob tro. Yn ogystal, mae cynnydd annigonol ychydig o hyfforddeion yn cael ei nodi'n rhy hwyr yn ystod y rhaglen i gynorthwyo'r hyfforddeion hyn yn effeithiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Anfoddhaol**

Mae arweiniad ar brofiad ysgol a chytundebau partneriaeth yn amlinellu'n glir y disgwyliadau gan hyfforddeion, mentoriaid ac ysgolion. Mae dogfennau a ffurflenni ar gyfer profiadau mewn ysgolion yn gyffredin i bob rhaglen, yn fras, ac mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r dull hwn ar y cyd. Serch hynny, nid yw arweiniad y ganolfan yn

darparu enghreifftiau da o gynllunio, arfarnu a gosod targedau i fentoriaid. Yn y rhan fwyaf o achosion, mae swyddfa partneriaeth y ganolfan a'r rhan fwyaf o diwtoriaid y brifysgol yn ymateb yn brydlon i ymholiadau'r ysgolion, yn enwedig os bydd anawsterau'n codi.

Mae'r rhan fwyaf o fentoriaid yn deall pwysigrwydd datblygu athrawon y dyfodol. Mewn llawer o ysgolion, mae uwch fentoriaid yn cynorthwyo mentoriaid dosbarthiadau a phynciau yn briodol i ddatblygu eu medrau a galluogi hyfforddeion i gael profiad cadarnhaol yn yr ysgol. Mae'r ganolfan yn darparu diweddariadau blynyddol i fentoriaid profiadol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar newidiadau i gyrsiau, dogfennau a materion gweithredol. Fodd bynnag, mae hyfforddiant arall, gan gynnwys hyfforddiant i fentoriaid newydd a hyfforddiant penodol i unigolion i ddatblygu medrau mentora, yn gyfyngedig. O ganlyniad, nid oes gan fentoriaid ddealltwriaeth glir a chytûn o agweddau pwysig ar y gwaith y maent yn ei gyflawni, gan gynnwys graddio gwersi. Dim ond ychydig o weithdrefnau ffurfiol sy'n bodoli i sicrhau ansawdd gwaith mentoriaid yn drylwyr ar draws pob rhaglen, ac mae hyn yn golygu bod ansawdd a chywirdeb arfarniadau, gosod targedau a graddio ar gyfer hyfforddeion yn amrywio gormod rhwng ysgolion a mentoriaid. Yn ogystal, nid oes gan y ganolfan brosesau ddigon cadarn i rannu gwybodaeth asesu am hyfforddeion ag ysgolion partner cyn eu lleoliadau, yn enwedig ar y rhaglenni cynradd. Mae hyn yn llesteirio gallu ysgolion i gynllunio i gynorthwyo hyfforddeion yn effeithiol.

Mae'r ganolfan yn dibynnu gormod ar broffesiynoldeb ac ewyllys da staff yn ei hysgolion partner i gynnal safonau.

Er bod meini prawf eang ar gyfer dethol a dad-ddethol ysgolion ar gyfer y bartneriaeth, nid yw'r rhain yn ddigon penodol, ac nid yw ysgolion a mentoriaid yn deall y meini prawf na'r broses yn llawn.

Mae'r ganolfan yn rhoi ystyriaeth addas i ychydig o flaenoriaethau cenedlaethol, yn enwedig wrth ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth hyfforddeion o'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a phwysigrwydd llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

Mae gwahaniaethau sylweddol yn y cyfleoedd y mae mentoriaid yn eu cael i roi adborth i'r ganolfan a chyfrannu at ddatblygu'r rhaglen. Mae cyfarfodydd adolygu blynyddol yn galluogi mentoriaid pynciau uwchradd ac uwch fentoriaid i drafod cryfderau a gwendidau mewn rhaglenni yn fanwl, a rhoi awgrymiadau gwerthfawr ar gyfer staff y bartneriaeth. Nid yw cyfleoedd wyneb-yn-wyneb tebyg yn bodoli ar gyfer mentoriaid cynradd, er y caiff pob un ohonynt eu gwahodd i lenwi holiaduron. Mae ychydig iawn o fentoriaid yn cyfrannu at ddethol hyfforddeion ac yn ymddwyn yn siaradwyr gwadd mewn sesiynau yn y brifysgol, gan ganolbwyntio ar feysydd arbenigol y rhaglen, fel tlodi a difreintedd.

Mae gan y ganolfan gysylltiadau priodol ag amrywiaeth o sefydliadau sy'n cyfoethogi profiad hyfforddeion. Mae ychydig o'r rhain, er enghraifft gwarchodfa glöynod byw ac adar leol, yn cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu dealltwriaeth hyfforddeion o ddefnyddio'r amgylchedd lleol mewn addysgu a dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ganolfan yn defnyddio digon ar adrannau eraill yn y prifysgolion, fel Canolfan Blynyddoedd Rhyfeddol Cymru ym Mangor, i ehangu profiad hyfforddeion ac ategu hyfforddiant.

**Rheoli adnoddau: Anfoddhaol**

Mae gan lawer o diwtoriaid gymwysterau da a gwybodaeth bynciol dda. Mewn llawer o achosion, mae ganddynt raddau uwch neu maent yn gweithio tuag at raddau uwch. Er bod gan y rhan fwyaf o diwtoriaid wybodaeth gyfredol am arfer ysgol bresennol, mewn ychydig o achosion, nid oes gan diwtoriaid y wybodaeth hon, ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar gynnydd hyfforddeion. O bryd i'w gilydd, mae'r ganolfan yn defnyddio gwybodaeth arbenigol gan Ysgolion eraill yn y brifysgol yn dda i ategu ei haddysgu mewn meysydd penodol, fel anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganolfan yn defnyddio staff Cymraeg eu hiaith yn dda i ddarparu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae'r ganolfan wedi rhoi fframwaith arfarnu cyffredin ar waith ar draws y ganolfan. Mae'n nodi anghenion hyfforddiant tiwtoriaid yn effeithiol trwy'r system arfarnu a thrwy reolwyr llinell. Mae cyfleoedd da i diwtoriaid gynyddu eu gwybodaeth broffesiynol. Mae ychydig o diwtoriaid yn ehangu eu gwybodaeth trwy ymgymryd ag ymchwil yn ymwneud â'u harbenigeddau addysgu. Mae'r ganolfan yn datblygu system rheoli perfformiad gadarn o ran ansawdd yr addysgu. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y fenter hon. Mewn ychydig o achosion, mae tiwtoriaid yn arsylwi ei gilydd yn addysgu ac yn rhannu eu harfer ag eraill mewn cyfarfodydd. Fodd bynnag, ar y rhaglen TAR uwchradd, nid yw tiwtoriaid yn rhannu eu harfer ddigon.

At ei gilydd, mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau yn unol â blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r ganolfan ac yn unol â'r cynllun datblygu ansawdd. Mae'r ganolfan wedi recriwtio tri ymchwilydd ar lefel gradd Meistr yn llwyddiannus i ymchwilio i agweddau ar raglenni hyfforddiant cychwynnol athrawon er mwyn gwneud gwelliannau. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu effaith y gwaith hwn. Yn gyffredinol, mae digon o adnoddau i ategu'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno rhaglenni ac i ddarparu'r deunyddiau i hyfforddeion astudio. Fodd bynnag, ni thargedwyd cyllid ailffurfweddu yn effeithiol i ddatblygu'r strategaeth farchnata ar y cyd ar gyfer y ganolfan, fel y rhagwelwyd yn y cynllun strategol. O ganlyniad, mae gan hyfforddeion ac ysgolion ddealltwriaeth gyfyngedig yn unig o gysyniad a gweledigaeth y ganolfan.

Er bod arweiniwyr yn rheoli adnoddau'n dda ar y cyfan, o ystyried y safonau y mae hyfforddeion yn eu cyflawni a'r ffaith nad yw'r ganolfan yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn agweddau ar sicrhau ansawdd, mae gwerth am arian yn anfoddhaol.

## Atodiad 1

**Materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio**

**Nid yw'r ddarpariaeth yn cydymffurfio**

Nid yw'r ganolfan yn cydymffurfio â gofyniad R4: Sicrhau ansawdd, yn benodol, R4.5: Arfarnu, a R4.3: Cymedroli asesu hyfforddeion.

Mae hyn oherwydd:

- Nid yw gweithdrefnau sicrhau ansawdd yn ddigon cadarn i nodi targedau clir ar gyfer gwella, adolygu darpariaeth yn erbyn y targedau hyn, nodi'r camau gweithredu i'w cymryd i sicrhau gwelliannau, a sicrhau bod camau penodol yn cael eu cymryd ac yn arwain at wella
- Nid yw gweithdrefnau cymedroli yn sicrhau bod asesiadau o gynnydd hyfforddeion yn gywir ac yn ddibynadwy
- Bernir bod cynllunio ar gyfer gwella a safonau yn anfoddhaol

Lle nad yw'r ddarpariaeth, neu agweddau sylweddol ar y ddarpariaeth, yn cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer HCA neu agweddau eraill ar y meini prawf ar gyfer achredu darparwyr HCA, daw gweithdrefnau CCAUC ar gyfer mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio i rym. Bydd Estyn yn hysbysu CCAUC o'i farn cyn pen pythefnos waith o gwblhau'r arolygiad, a dyma'r diwrnod pan fydd Estyn yn rhoi adborth llafar terfynol i'r darparwr HCA. Bydd Estyn yn gofyn i'r darparwr ddarparu cynllun gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r holl faterion a nodwyd yn yr arolygiad, gan gynnwys materion yn ymwneud â diffyg cydymffurfio.

## Atodiad 2

**Boddhad dysgwyr**

Cafodd Estyn 77 ymateb gan hyfforddeion, a ddetholwyd ar hap ar draws y rhaglenni.

Mae bron pob un o'r hyfforddeion o'r farn bod eu rhaglen hyfforddiant cychwynnol athrawon yn eu paratoi'n dda i fodloni'r safonau ar gyfer statws athro cymwysedig. Mae'r holl hyfforddeion o'r farn bod eu tiwtoriaid a'u mentoriaid yn eu helpu i fyfyrio ar eu cynnydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion israddedig a'r mwyafrif o'r hyfforddeion ôl-raddedig o'r farn bod y rhaglen wedi ei chynllunio'n effeithiol. Mae'r holl hyfforddeion israddedig a'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion ôl-raddedig o'r farn bod gan eu rhaglen hyfforddiant cychwynnol athrawon gyfnod ymsefydlu defnyddiol a'u helpodd i ymgartrefu yn eu hastudiaethau.

Mae'r holl hyfforddeion israddedig a'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion ôl-raddedig yn mwynhau eu hastudiaethau. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r hyfforddeion o'r farn bod eu tiwtoriaid a'u mentoriaid yn eu hannog i reoli eu cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd.

Mae bron pob un o'r hyfforddeion yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag aflonyddu yn y brifysgol ac yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion israddedig a llawer o'r hyfforddeion ôl-raddedig o'r farn bod y rhaglen hyfforddiant wedi gwella eu hagweddau tuag at gadw'n iach ac yn ddiogel, a'u bod yn datblygu eu gallu i ymdopi â sefyllfaoedd sy'n achosi straen yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion o'r farn bod eu tiwtoriaid yn rhoi cyfleoedd dysgu iddynt yn y Gymraeg a/neu'r Saesneg, yn unol â'u dewis. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion yn teimlo bod eu tiwtoriaid yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw ychydig o'r hyfforddeion israddedig o'r farn eu bod yn cael adborth defnyddiol ar eu haseiniadau ysgrifenedig, ac nid yw ychydig o'r hyfforddeion ôl-raddedig o'r farn bod y rhaglen yn y brifysgol yn eu helpu i wella eu haddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion o'r farn eu bod yn cael lleoliadau ysgol o ansawdd da sy'n bodloni eu hanghenion hyfforddiant. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion o'r farn eu bod yn cael cymorth parhaus da gan eu tiwtoriaid a'u mentoriaid. Mae'r holl hyfforddeion israddedig a'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion ôl-raddedig yn teimlo eu bod yn cael adborth rheolaidd sy'n eu helpu i wella eu medrau, a'u bod yn cael digonedd o gyfleoedd i arsylwi addysgu da. Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion israddedig a llawer o'r hyfforddeion ôl-raddedig o'r farn bod eu huwch fentoriaid yn eu helpu i ddeall materion ysgol gyfan.

Mae'r rhan fwyaf o'r hyfforddeion ôl-raddedig o'r farn eu bod yn gallu manteisio'n dda ar lyfrau ac offer, gan gynnwys cyfrifiaduron, i wneud eu gwaith. Fodd bynnag, roedd ychydig o'r hyfforddeion israddedig yn anghytuno â'r datganiad hwn.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Sarah Lewis | Arolygydd Cofnodol |
| Ceri Jones | Arolygydd Tîm |
| Penny Lewis | Arolygydd Tîm |
| Sarah Jane Morgan | Arolygydd Tîm |
| Dyfrig Ellis | Arolygydd Tîm |
| Maldwyn Ellis Pryse | Arolygydd Tîm |
| Steven William Pringle | Arolygydd Tîm |
| Mamta Arnott | Arolygydd Tîm |
| Lowri Jones | Arolygydd Tîm |
| Eleanor Clare Kynaston | Arolygydd Cymheiriaid |
| Russell Grigg | Arolygydd Cymheiriaid |
| Susan Wyn Jones | Enwebai |